ATODLEN 5

Y mesurau sy'n gymwys i ganolfan gasglu ddomestig

# RHAN 2

## Y profion arferol y mae'n rhaid eu cynnal ar yr holl anifeiliaid buchol mewn canolfannau casglu domestig a'r driniaeth y mae'n rhaid ei rhoi iddynt yno

**1.** Rhaid i filfeddyg y ganolfan sicrhau bod yr holl anifeiliaid buchol a gedwir mewn canolfan gasglu ddomestig yn cael y profion canlynol o leiaf unwaith y flwyddyn—

(a) ar gyfer twbercwlosis buchol, prawf twbercwlin mewngroenol a gynhelir yn unol â'r weithdrefn a osodir yn Atodiad B i Gyfarwyddeb 64/432/EEC;

(b) ar gyfer brwselosis buchol, prawf serolegol a gynhelir yn unol â'r weithdrefn a ddisgrifir yn Atodiad C i Gyfarwyddeb 64/432/EEC; ac

(c) ar gyfer lewcosis buchol ensootig, prawf serolegol a gynhelir yn unol â'r weithdrefn a ddisgrifir yn Atodiad D (Pennod II) i Gyfarwyddeb 64/432/EEC.

**2.** —Os bydd unrhyw rai o'r profion uchod yn gadarnhaol, rhaid i filfeddyg y ganolfan sicrhau bod yr anifail buchol yn cael ei ynysu a bod y semen a gasglwyd oddi wrtho ers y prawf negyddol diwethaf yn cael ei ddistrywio.

(2) Rhaid i filfeddyg y ganolfan sicrhau—

(a) bod y semen, a gasglwyd oddi wrth bob anifail buchol arall yn y ganolfan ers y dyddiad y cynhaliwyd y prawf cadarnhaol, yn cael ei gadw mewn storfa ar wahân; a

(b) na chaiff y semen hwnnw ei ddefnyddio na'i gyflenwi hyd nes y bydd statws iechyd y ganolfan wedi'i adfer i'r lefel sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb a'r Rheoliadau hyn.